OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 943 (Cy.92)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*28 Mawrth 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 77, 83, 83A a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001(**2**).

Diwygio rheoliad 8 o'r prif Reoliadau

2.—(1) Diwygir rheoliad 8 o'r prif Reoliadau (esemptiadau) fel a ganlyn.

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations". Diwygiwyd adran 83 gan Ddeddf yr Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995"), adran 1 ac Atodlen 1, paragraff 39 a chan O.S. 2000/90, erthygl 3(1) ac Atodlen 1, paragraff 13(1) a (4). Mewnosodwyd adran 83A gan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 (p.7) ("Deddf 1988"), adran 14(1); ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf 1990, adran 66(1) ac Atodlen 9, paragraff 18(5)(a) a (b); gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 25 ac Atodlen 2, paragraff 6; gan O.S.1998/2385, erthygl 2 a chan Ddeddf 1995, adran 2(1) ac Atodlen 1, paragraff 40. Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a Deddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 37(6). Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 12 gan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53), adran 25(2) ac Atodlen 5, paragraff 1; gan Ddeddf 1988, adran 16 ac Atodlen 5; gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46), adran 41(10) ac Atodlen 2, paragraff 31 a chan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), adran 184 ac Atodlen 11, paragraffau 7 a 44. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 77, 83, 83A a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(4), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15), adran 68(1), Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), adran 40(1) a Deddf 2003, adran 197(1).

(**2**) O.S. 2001/1358 (Cy.86). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2001/2359 (Cy.196), O.S. 2004/1018 (Cy.115) a 2004/1605 (Cy.164) ac O.S. 2005/427 (Cy.44) ac O.S. 2005/1915 (Cy.158).

(2) Yn lle paragraff (1) rhodder y canlynol—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni fydd ffi yn daladwy o dan reoliadau 3, 4, 6 neu 7 gan y canlynol—

(a) person sydd o dan 16 oed;

(b) person sydd o dan 19 oed sy'n derbyn addysg lawnamser gymwys o fewn ystyr paragraff 7 o Atodlen 12 i'r Ddeddf;

(c) person sydd o dan 25 oed ac sy'n cyflwyno—

(i) ffurflen bresgripsiwn Gymreig, neu

(ii) swp-ddyroddiad sy'n ymwneud â phresgripsiwn amlroddadwy Cymreig;

(ch) person sydd wedi cyrraedd 60 oed;

(d) menyw sydd â thystysgrif esemptio ddilys a ddyroddwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol ar y sail ei bod yn fam sy'n disgwyl neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ystod y deuddeg mis diwethaf i blentyn byw neu i blentyn y gellir cofrestru ei fod yn farwanedig o dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953(**3**) neu sydd â thystysgrif esemptio ddilys a ddyroddwyd o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

(dd) person sydd â thystysgrif esemptio ddilys a ddyroddwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol ar y sail ei fod yn dioddef un neu fwy o'r cyflyrau canlynol—

(i) ffistwla parhaol (gan gynnwys caecostomi, colostomi, laryngostomi neu ileostomi) sy'n gwneud gorchuddion llawfeddygol neu gyfarpar yn ofynnol yn barhaol;

(ii) yr anhwylderau canlynol—

ffurfiau o hypoadrenaledd (gan gynnwys clefyd Addison) y mae therapi amnewid penodol yn hanfodol ar ei gyfer

diabetes insipidus a ffurfiau eraill o hypobidwitedd

diabetes mellitus — ac eithrio pan yw'r drinaeth drwy ddeiet yn unig

hypoarathyroidedd

myasthenia gravis

mycsoedema

(iii) epilepsi sy'n ei gwneud yn ofynnol i barhau â therapi gwrth-ddirdynnol;

(iv) anabledd corfforol parhaus sy'n rhwystro'r claf rhag gadael ei breswylfa heb gymorth person arall;

neu gan berson sydd â thystysgrif esemptio ddilys a ddyroddwyd o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

(e) person sydd â thystysgrif esemptio ddilys a ddyroddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran cyflenwi cyffuriau a chyfarpar ar gyfer trin anabledd sydd wedi'i dderbyn, ond yn y naill achos neu'r llall dim ond o ran y cyflenwadau hynny y mae'r dystysgrif yn ymwneud â hwy;

(f) person sydd â thystysgrif ragdalu ddilys neu dystysgrif ragdalu ddilys a roddwyd o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon".

(3) Ym mharagraff (2)—

(**3**) 1953 p.20.